CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai

Pwy all helpu?

Uned Plant a Theuluoedd

Children and Families Unit

Rydym ni'n credu mai'r lle gorau i bron bob plentyn dyfu i fyny yw adref gyda'u teulu eu hunain. Golyga hyn ein bod yn gweithio efo'r teulu cyfan ac asiantaethau eraill, fel iechyd ac addysg, i ganfod y ffordd orau o helpu hyn ddigwydd. Byddwn bob amser yn cymryd i ystyriaeth gefndir crefyddol, diwylliannol a chymdeithasol eich teulu.

Gallwn ni helpu plant a phobl ifanc a'u rhieni, aelodau o'u teulu a'u gofalwyr. Dim ond os ydych yn byw yng Nghonwy y gallwn eich helpu.

Rydym ni'n helpu pobl efo problemau neu sydd mewn amgylchiadau sy'n achosi straen a allai gael effaith difrifol ar les y plentyn neu'r teulu. Er enghraifft, gallwn helpu:

- rhieni neu bobl ifanc sydd angen cyngor;
- rhieni sy'n cael problemau efo eu plant;
- pobl sy'n poeni am les plentyn;
- plant sydd mewn perygl o gael eu brifo;
- plant neu bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal;
- rhai sydd wedi dioddef trais domestig;
- rhieni sengl sydd angen cefnogaeth;
- unrhyw un sydd eisiau maethu neu fabwysiadu;
- unrhyw un sydd eisiau gwybod beth yr ydym yn ei wneud i helpu plant;
- pobl ifanc sy'n gadael gofal;
- plant a'u rhieni os yw'r plant (neu os gallai'r plant) fod ar y gofrestr anabledd; a
- rhieni efo problemau cyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl.

Pa fath o help allwch chi ei gynnig?

Gall ein staff cymwys eich helpu i feddwl am eich problemau a chanfod pa fath o help sydd efallai ei angen arnoch. Byddant yn eich helpu i edrych ar yr opsiynau a chynnig cyngor ar sut i helpu. Gallwn gynnig:

- gwybodaeth a chyngor;
- help tymor byr mewn argyfwng;
- help ar gyfer plant a theuluoedd sydd efo llawer o anghenion;
- cefnogaeth yn y cartref er mwyn eich helpu i ymdopi, fel nad oes rhaid i'ch plentyn fynd i ofal; a
- gofal maeth neu ofal preswyl (dim ond os oes gwir angen hyn).

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni wneud yr hyn sydd ei angen i warchod lles plant a phobl ifanc.

Pwy sy'n penderfynu pa help dwi'n ei gael?

Os yw eich plant yn ymdopi'n dda ond bod gennych broblem benodol, efallai gallwn gynnig cyngor a gwybodaeth. Efallai gallem hefyd awgrymu mudiadau eraill a allai fod o help i chi.

Fodd bynnag, mae adegau pan fo teuluoedd yn teimlo dan bwysau eithriadol ac yn methu ag ymdopi. Gall sawl rheswm fod tu ôl i hyn. I rai pobl, mae yna argyfwng penodol, i eraill, digwydd hyn oherwydd bod gan blentyn neu deulu anghenion cymhleth. Os nad yw eich teulu'n ymdopi'n dda, byddwn yn canfod mwy am anghenion eich teulu ac anghenion pob plentyn yn eich teulu. Mae hyn hefyd yn cael ei alw'n asesiad. Rydym yn gwneud yr asesiad drwy weithio efo chi ac asiantaethau eraill fel iechyd ac addysg.

Unwaith byddwn wedi gwneud yr asesiad, gallwn weld os gallwn eich helpu. Os gallwn, byddwn yn penderfynu pa wasanaethau a gewch a phwy fydd yn eu darparu. Os byddwn yn cynnig gwasanaeth i chi, gallwch ddweud wrthym os ydych angen y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynglŷn a sut yr ydym yn penderfynu pwy all gael help oddi wrthym, neu ynglŷn ag unrhyw wasanaethau a ddisgrifir yn y llyfryn hwn, cysylltwch efo ni. Mae ein cyfeiriad â'n rhif ffôn yng nghefn y llyfryn.

Y gwasanaethau sydd gennym

Plant a phobl ifanc mewn perygl

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni ymchwilio os yw unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc yn ymddangos i fod mewn perygl o gael eu hesgeuluso , neu mewn perygl o fod yn cael eu cam-drin yn gorfforol, yn emosiynol neu'n rhywiol.

Rydym bob amser yn ceisio gweithio efo caniatâd rhieni neu teulu'r plentyn. Fodd bynnag, os teimlwn fod plentyn neu blant mewn perygl, mae'n rhaid i ni weithredu hyd yn oed os yw'r rhieni'n gwrthwynebu. Os yw'r rhieni'n gwrthwynebu, efallai bydd yn rhaid i ni gael gorchymyn llys.

Os ydych chi'n poeni bod plentyn neu unigolyn ifanc mewn perygl, cysylltwch efo ni. Gall plant a phobl ifanc gysylltu efo ni eu hunain. Rydym bob amser yn barod i ddelio efo unrhyw alwad – gan gynnwys rhai oddi wrth blant eu hunain – yn hollol gyfrinachol. Nid oes hyd yn oed rhaid i chi ddweud wrthym pwy yr ydych.

Gwasanaethau Teulu a Chefnogaeth Gymunedol

Bron bob amser, mae'n well er lles y plentyn iddo fyw efo'i deulu. Rydym yn gweithio efo rhieni er mwyn helpu gwneud hyn ddigwydd a'i gwneud yn llai tebygol y bydd angen i'r plentyn fynd i ofal. Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc eisoes mewn gofal, byddwn yn gweithio er mwyn ceisio helpu'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i ddychwelyd adref. Rydym yn cynnig cyngor, arweiniad a chwnsela. Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth ymarferol i bobl sy'n teimlo bod problemau bod yn rhiant neu anawsterau eraill yn eu gorlethu. Mae gennym wahanol dimau sy'n darparu gwahanol fath o help.

- **Tîm Cefnogaeth Gymunedol**
  Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dros 10 mlwydd oed yn unig. Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth o 8 y bore tan yn hwyr (sy'n golygu bod y gwasanaeth hwn ar gael tu allan i oriau swyddfa arferol a chaiff ei yrru'n bennaf yn ôl y galw oddi wrth y defnyddwyr), saith diwrnod o'r wythnos, ac 'ymateb brys' mewn argyfwng. Rydym yn gweithio efo teuluoedd os yw plentyn neu rywun ifanc mewn perygl o orfod mynd i ofal. Os yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc eisoes mewn gofal, gallwn weithio efo pawb er mwyn ceisio eu cael yn ôl adref. Rydym hefyd yn gweithio efo teuluoedd maeth os ydynt yn cael trafferth edrych ar ôl plentyn neu unigolyn ifanc sydd wedi cael eu maethu. Mae'r tîm yn helpu llunio contractau rhwng rhieni a gofalwyr maeth, y plentyn neu'r unigolyn ifanc a gweithiwr/aig cymdeithasol y teulu. Mae'r contractau hyn yn amlygu pwy sydd angen gwneud beth.

- **Tîm Ymateb Brys Cyffuriau ac Alcohol**
  Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer unrhyw deulu lle mae plant mewn perygl o ganlyniad i'w rhieni'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Mae'r tîm yn cynnig gwasanaeth, yn ôl yr angen, unrhyw amser o'r dydd neu'r nos, saith diwrnod o'r wythnos am rhwng pedair a chwe wythnos. Mae'r tîm yn helpu i lunio contract sy'n amlygu pwy sydd angen gwneud beth.

- **Cynadleddau Grŵp Teuluol**
  Mae pob teulu'n unigryw, efo'i ddiwylliant, ei bersonoliaethau a'i hanes ei hun. Weithiau, gall teuluoedd ddatrys sefyllfaoedd anodd sy'n cynnwys plant efo help oddi wrth berthnasau a ffrindiau. Efallai bod rhai teuluoedd angen help oddi wrth asiantaethau eraill megis y gwasanaethau iechyd, addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynadleddau grŵp teuluol yn ffordd o roi cyfle i deuluoedd ddod ynghyd â cheisio gwneud y cynllun gorau posibl ar gyfer y plant. Mewn cynhadledd grŵp teuluol, aelodau'r teulu sy'n gwneud y penderfyniadau, nid pobl o'r asiantaethau allanol.

- **Tîm Cefnogaeth Sesiynol**
  Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sydd eisoes yn cael help oddi wrthym ni. Mae help ar gael saith diwrnod o'r wythnos. Mae'r tîm yn cynnal cynlluniau chwarae yn ystod yr haf, Clwb dydd Sadwrn ar gyfer plant efo anableddau, grwpiau cyfeiriadu a chynllun go-cart. Gall y tîm helpu pobl ifanc sy'n 14 oed a hŷn i gymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin. Mae aelodau'r tîm hefyd yn ymgymryd efo gwaith un-i-un os yw hynny'n rhan o gynllun cynhwysfawr i gwrdd ag anghenion plentyn neu rywun ifanc.

- **Tîm Cefnogi Rhieni**
  Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer rhieni sydd eisiau help ychwanegol efo bod yn rhiant. Rydym yn cynnig gwasanaeth o 8 y bore tan yn hwyr, saith diwrnod o'r wythnos. Rydym yn canolbwyntio'r gefnogaeth ar rieni. Rydym yn llunio contract rhwng y rhieni, y gweithiwr/aig cymdeithasol a'r tîm cefnogi rhieni er mwyn amlygu pwy sydd angen gwneud beth. Rydym yn adolygu'r contract pob chwe wythnos.

  Gall y gweithiwr/aig cefnogi rhieni helpu efo:

  - Sgiliau bod yn rhiant;
  - Rheoli arian a dyled;
  - Sgiliau bywyd;
  - Delio efo cymdogion;
  - Gweithio'n fwy effeithiol efo'ch plant;
  - Cael cefnogaeth broffesiynol; a
  - Siopa a negeseuon cyffredinol.

- **Gwasanaeth Seicolegol a Therapiwtig**
  Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer teuluoedd efo plentyn neu rywun ifanc sydd efo problemau seicolegol, emosiynol neu ymddygiad.

  Gallwn gynnig help i deuluoedd, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr maeth a mabwysiadwyr. Rydym yn gweithio efo grwpiau ac unigolion. Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant ar faterion seicolegol a therapiwtig. Darperir y gwasanaeth gan seicolegydd siartredig a gweithiwr cymdeithasol therapiwtig.

- **Gofalwyr Ifanc**
  Mae'r grŵp gofalwyr ifanc yn helpu pobl ifanc sy'n gofalu am aelod o'r teulu. Gan amlaf, mae gan y bobl ifanc hyn ddyletswyddau nad oes gan bobl sydd yr un oed â nhw fel arfer. Mae'r grŵp yn rhoi'r cyfle iddynt fwynhau cyfeillgarwch a phrofiadau sydd efallai ar goll o'u bywydau oherwydd yr amser a dreuliant yn gofalu am eraill.

  Gall pob gofalwr/aig ifanc gael asesiad o'u hanghenion, a gall teuluoedd gael gwasanaethau er mwyn helpu'r bobl ifanc yn eu rôl fel gofalwyr.

Gwasanaethau i blant efo anableddau a'u teuluoedd

Yn rhan o'r tîm plant efo anableddau mae gweithwyr cymdeithasol profiadol, cydlynydd pontio (sy'n sicrhau bod y cam o'r gwasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn un esmwyth), uwch ymarferydd a phen ymarferydd. Mae'r tîm yn gweithio efo plant sydd ag anabledd ac sy'n cwrdd â'n amodau ar gyfer cael gwasanaeth.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos efo mudiadau iechyd, addysg a gwirfoddol ac asiantaethau preifat er mwyn datblygu, cynllunio a rhedeg gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau wedi eu dylunio i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd efo anabledd, o'u genedigaeth nes maent yn camu ymlaen i'r gwasanaethau oedolion pan fônt yn 18 mlwydd oed.

Mae'r tîm plant efo anableddau yn darparu gwasanaethau neu fe allant drefnu sawl gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd efo anableddau. Gall y rhain gynnwys:

- Gwaith cymdeithasol a chwnsela;
- Gwybodaeth ar wasanaethau;
- Cefnogaeth o wasanaethau ymweld â'r cartref fel nyrsys cymunedol;
- Gwasanaethau eiriolaeth; (Gwasanaeth sydd ar gael drwy'r gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo pobl i gynrychioli eu barn a'u diddordebau eu hunain);
- Cefnogaeth gwaith sesiynol;
- Cefnogaeth i rieni;
- Cefnogaeth gymunedol;
- Cynlluniau chwarae;
- Clybiau ieuenctid;
- Gofal seibiant (rhoi seibiant i'r un sy'n gofalu);
- Cynllun Cyswllt Teulu;
- Gofal tymor-hirach;
- Cefnogaeth seicolegol a therapiwtig, ac
- Asesiadau gan therapydd galwedigaethol i weld os yw plentyn neu unigolyn ifanc angen unrhyw gymhorthau personol neu addasiadau i'w cartref.

Gwasanaethau ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n methu â byw adref

Rydym bob amser yn ceisio cadw plant efo'u teuluoedd, ond efallai bydd adegau pan na fydd hyn yn bosibl. Os felly, byddwn yn ceisio dod i gytundeb efo'r rhieni ynglŷn a sut y gofelir am y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn aros efo gofalwyr maeth, ond bydd rhai yn cael gofal mewn cartref plant. Weithiau, ni allwn ddod i gytundeb efo'r rhieni ac mae'n rhaid i ni ddarparu gofal yn erbyn dymuniadau'r rhiant. Fel arfer, byddwn angen gorchymyn llys i wneud hyn.

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw i ffwrdd oddi wrth eu rhieni angen gwasanaethau cefnogi er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau posibl. Rydym yn darparu'r canlynol.

- **Cynllunio Gofal**
  Mae gan bob plentyn mewn gofal gynllun gofal sy'n dweud beth yw eu hanghenion a sut byddant yn cael eu cwrdd. Mae'n rhaid i'r cynllun gofal fod yn gyfeillgar tuag at blant (h.y. bod y plentyn yn ei ddeall a'i fod wedi cael ei ddatblygu efo help y plentyn) ac yn dweud beth yr ydym eisiau ei gyflawni. Mae'r uwch weithiwr/aig cymdeithasol a'r swyddog cynllunio gofal yn sicrhau bod y cynllun gofal yn cael ei wneud yn iawn. Maent yn cyfarfod efo'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i sicrhau eu bod yn deall beth mae'r cynllun yn ei ddweud. Rydym yn adolygu'r cynllun gofal yn rheolaidd ac yn cynnal cyfarfodydd cynnydd yn rheolaidd. Unwaith bydd y cynllun gofal yn glir ac yn gweithio'n dda, bydd yr uwch weithiwr/aig cymdeithasol yn rhoi'r gorau i fod yn rhan.

- **Cyfweliad Gadael**
  Rydym bob amser yn ceisio gwella'n gwasanaethau i blant a phobl ifanc. O ganlyniad, tua phythefnos ar ôl i rywun adael gofal neu'n mynd i fyw efo teulu arall, mae'r swyddog cynllunio gofal yn gwneud apwyntiad i'w gweld eto er mwyn llenwi holiadur. Rydym yn galw hyn yn gyfweliad gadael. Rydym yn ei ddefnyddio i ganfod beth mae plant a phobl ifanc yn ei feddwl o fod yn ein gofal. Rydym yn canfod beth yr ydym yn ei wneud yn dda a lle mae angen i ni wneud pethau'n well. Mae hefyd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael dweud unrhyw beth nad oeddent yn teimlo y gallent ei ddweud tra mewn gofal. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyd er mwyn gwella'n gwasanaethau.

- **Gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal**
  Yn y gorffennol, weithiau mae bod mewn gofal wedi golygu bod addysg plant a phobl ifanc wedi dioddef. Er enghraifft, roedd newid lle'r oedd plentyn yn byw weithiau'n golygu bod yn rhaid iddynt newid ysgol ac roedd gan hyn effaith ddrwg ar eu haddysg. Er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc ar eu colled, mae gennym rwan Gydlynydd Addysg ar gyfer Plant dan Ofal. Rôl yr unigolyn yma yw sicrhau gall plant mewn gofal wneud y mwyaf o'u cyfleoedd addysg. Mae gan bob plentyn neu unigolyn ifanc mewn gofal cynllun addysg personol. Mae athro/awes, gweithiwr/aig cymdeithasol y plentyn a'r Cydlynydd Addysg Plant dan Ofal yn helpu i ysgrifennu'r cynllun. Nid yw addysg yn ymwneud efo pasio arholiadau yn unig, felly mae'r cynllun addysg personol yn gofalu am y meysydd canlynol.

- Cyfeillgarwch
- Bwlio
- Hunan hyder
- Chwaraeon
- Hobïau
- Diddordebau eraill
- Presenoldeb yn yr ysgol
- Llythrennedd (darllen ac ysgrifennu)
- Cyflawniadau
- Dewisiadau ar ôl gadael ysgol
- Cysylltiadau efo golegau a phrifysgolion

- Gwasanaethau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal

Yn y gorffennol, nid oedd holl anghenion iechyd plant mewn gofal yn cael eu diwallu. Rŵan mae gennym nyrs gymwys fel Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Plant dan Ofal er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd o hyd. Yn benodol, mae'r nyrs yn sicrhau bod pawb:

- yn cael eu himiwneiddio;
- wedi cofrestru efo doctor a deintydd; ac
- yn cael archwiliad meddygol yn rheolaidd.

Rhan bwysig arall o'r gwaith ydi sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod am effeithiau cyffuriau ac alcohol. Mae'r nyrs yn cynghori pobl ifanc ar faterion iechyd eraill hefyd fel eu bod yn gwybod sut i gadw'n iach fel oedolion. Mae ein nyrs hefyd yn cynnal prosiectau iechyd a hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth.

Gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal

Rydym yn ceisio helpu pobl ifanc mewn gofal i fynd yn ôl i fyw efo'u teuluoedd. Fodd bynnag, rydym angen edrych ar ôl rhai pobl ifanc nes maent yn barod i fyw ar ben eu hunain. Mae'n ddyletswydd arnom helpu'r bobl ifanc hyn gymaint â phosibl. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i baratoi i adael gofal, a'u cefnogi unwaith y byddant wedi gadael gofal i'w helpu i fyw bywyd yn annibynnol.

Rydym yn gweithio efo'r bobl ifanc hyn er mwyn canfod beth maent eisiau ei wneud yn y dyfodol a pha gymorth fyddant ei angen. Byddwn yn ysgrifennu hyn yn y cynllun pathway.

Gallwn helpu efo:

- tai;
- arian;
- addysg bellach;
- cyngor gyrfa;
- sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol; a
- gwybodaeth am asiantaethau a gwasanaethau eraill.

Gallwn helpu tan fydd pobl ifanc yn cyrraedd 21 oed (neu 25 os ydynt dal mewn addysg neu hyfforddiant).

Gwasanaethau Mabwysiadu

Rydym yn asiantaeth fabwysiadu. Golyga hyn ein bod yn gweithio efo pobl sydd eisiau mabwysiadu ac efo pobl sydd wedi cael eu mabwysiadu. Rydym yn:

- recriwtio, hyfforddi, asesu a chefnogi pobl sy'n meddwl am fabwysiadu;
- ymgymryd efo ymholiadau ar gofnodion geni;
- helpu canfod rhieni biolegol;
- bod yn ganolwr pan fo rhywun eisiau cysylltu efo'u teulu biolegol;
- helpu llys-rieni sydd eisiau mabwysiadau, a mabwysiad rhwng gwledydd;
- cynnig cwnsela ar ôl mabwysiadu;
- cynnig cwnsela i rieni biolegol; a
- chynnig cyswllt 'blwch-llythyrau' (cyswllt blwch llythyrau yw ffordd o basio llythyrau, cardiau a ffotograffau rhwng teuluoedd biolegol a theuluoedd mabwysiadol heb gyfnewid enwau a chyfeiriadau) rhwng plant a fabwysiadwyd a'u teulu biolegol (os yn briodol).

Sut i ofyn am gymorth

Os ydych angen help neu os ydych yn poeni am blentyn neu rywun ifanc, cysylltwch efo'n Swyddfa Plant a Theuluoedd yn:

Anecs y Ganolfan Ddinesig
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AR.
Ffôn: 01492 514871

Rydym ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Mae gennym hefyd wasanaeth argyfwng yn ystod gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau'r banc. Os oes gennych argyfwng (gan gynnwys pryderon am ddiogelwch plentyn neu rywun ifanc) tu allan i oriau'r swyddfa, ffoniwch rif y swyddfa a roddwyd uchod a chewch siarad efo gweithiwr/aig cymdeithasol cymwys.

Pa help sydd ar gael oddi wrth bobl eraill?

Weithiau ni allwn ddarparu'r cymorth yr ydych ei angen. Os digwydd hyn, byddwn yn ceisio eich rhoi mewn cysylltiad efo pobl o fudiadau eraill a allai fod o help.

Cychwyn Cadarn

Cynllun wedi cael ei ariannu gan y llywodraeth yw hwn. Ei nod yw gwella iechyd a lles plant a theuluoedd, cyn genedigaeth ac ar ôl genedigaeth hyd at bedair blwydd oed, fel bod plant yn barod i ffynnu pan fônt yn mynd i'r ysgol.

Mae Cychwyn Cadarn yn cydlynu ystod o wasanaethau sy'n ymwneud efo iechyd, addysg a datblygiad cymdeithasol plant ifanc. Mae dwy ganolfan Cychwyn Cadarn yng Nghonwy. Gallwch gysylltu efo nhw yn y cyfeiriadau canlynol.

Cychwyn Cadarn
Tŷ Tudno
15a Ffordd Las
Llandudno
LL30 1ER.
Ffôn: 01492 872444

Cychwyn Cadarn
Neuadd yr Eglwys
Heol Watling
Llanrwst
LL26 0LS.
Ffôn: 01492 642082

Gwasanaeth Hawliau Plant ac Ymwelydd Annibynnol Conwy NCH Cymru sy'n darparu hyn. Mae ar gyfer plant a phobl ifanc sydd efo unrhyw fath o gyswllt efo ni, yn enwedig pobl ifanc sy'n byw oddi cartref. Mae Hawliau Plant yn darparu gwasanaeth cyfrinachol. Gallant:

- helpu pobl ifanc i sortio eu problemau;
- rhoi cyngor am wneud cwyn;
- rhoi cyngor a chefnogaeth am adolygiadau; a
- rhoi cyngor a chefnogaeth am hawliau rhywun ifanc.

Nid yw'r ymwelwyr annibynnol yn gysylltiedig efo gofal cymdeithasol a gwasanaethau tai. Maent yn ymweld efo pobl ifanc sydd mewn gofal er mwyn treulio amser yn gwrando ar unrhyw bryderon neu anawsterau efallai sydd gan rhywun ifanc.

Gallwch gysylltu efo nhw fel a ganlyn:

Glenys Jones
Prosiect Hawliau Plant Conwy
NCH Cymru
Eryl Wen
Eryl Place
Llandudno
LL30 2TX.
Rhadffôn: 0800 587 5006
Ffôn: 01492 879625

Troseddwyr Ifanc

Pe hoffech wybodaeth am wasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni troseddau, gofynnwch am ein taflen 'Tîm Troseddwyr Ifanc Canol Gogledd Cymru'. Mae'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn gweithio o:

68 Conwy Road
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7LD.
Ffôn: 01492 523500

'Home-Start'

Mae'r mudiad gwirfoddol hwn yn helpu teuluoedd sydd efo o leiaf un plentyn dan bump oed. Mae gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth ymarferol a chyngor i deuluoedd yn eu cartrefi eu hunain. Maent hefyd yn cynnig cefnogaeth drwy grwpiau rhieni a phlant a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd yng Nghanolfan 'Homestart' yn Llandudno ac yng Nghanolfan Cychwyn Cadarn yn Llanrwst. Gallwch gysylltu efo nhw yn:

Eryl Wen
Eryl Place
Llandudno
Conwy
LL30 2TX.
Ffôn: 01492 860842

Relate Gogledd Cymru

Yn aml, gall y mudiad gwirfoddol hwn helpu rhieni sy'n cael problemau yn eu perthynas. Gallwch gysylltu efo nhw yn:

8 Rhodfa Riviere
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7PD.
Ffôn: 01492 533920

Am gyngor cyfreithiol ar anghydfodau gwahanu a gwarchodaeth, dylech siarad efo cyfreithiwr. Efallai gallech gael eu help drwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Cymorth Cyfraith gynt).

Am **gymorth ariannol**, cysylltwch efo'r Asiantaeth Budd-daliadau. Ni allwn roi arian i deuluoedd heblaw am mewn amgylchiadau anarferol iawn. Gallwch gysylltu efo'r Asiantaeth Budd-daliadau yn:

4a Coed Pella Road
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8LR.
Ffôn: 01492 614800

Am wasanaethau tai, cysylltwch efo'r canlynol:

Bae Colwyn	Ffôn: 01492 530523
Conwy	Ffôn: 01492 576272
Llandudno	Ffôn: 01492 574031

Am Fudd-dal Tai, cysylltwch efo'r canlynol.
Yr Ardal Ddwyreiniol – Bae Colwyn a Llysfaen, Hen Golwyn, Towyn, Bae Cinmel, Mochdre, Llandrillo-yn-Rhos, Cerrigydrudion, Llannefydd a Henllan, Llanfairtalhaiarn, Llangernyw, Llansannan, Llanfihangel a Maerdy, Pentrefoelas, Llangwm, Abergele, Betws-yn-rhos, Llanddulas a Rhyd y Foel.

Ffôn: 01492 762555

Yr Ardal Orllewinol – Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy, Llanrhos, Llanfairfechan, Llanrwst, Glan Conwy, Penmaenmawr, Trefriw, Llandudno, Betws-y-coed, Bro Garmon, Bro Machno, Caerhun, Capel Curig, Dolgarrog, Eglwysbach, Henryd, Llanddoged a Maenan ac Ysbyty Ifan.

Ffôn: 01492 576259

Os oes problemau yn yr ysgol, cysylltwch efo ysgol eich plentyn.

Mae gan lawer o blant a theuluoedd broblemau, a gallant eu datrys gyda help oddi wrth y teulu, ffrindiau neu gymdogion. Gallwch hefyd gael help oddi wrth ymwelwyr iechyd, nyrsys a mudiadau gwirfoddol eraill.

Beth arall ydw i angen ei wybod?

Canmoliaeth a Chwynion

Ein nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl ar eich cyfer. Er mwyn gwneud hyn, rydym angen gwybod beth yr ydych yn ei feddwl am y gwasanaethau a gewch. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella meysydd sydd heb gyrraedd y safon, ac ehangu ar neu gynnal y gwasanaethau sy'n gweithio'n dda.

Canmoliaeth

Os cawsoch eich plesio efo gwasanaeth, byddai'n help i ni gael gwybod. Rydym i gyd yn hoff o gael diolch am wneud ein gwaith yn dda, a gallwch basio unrhyw ganmoliaeth i'r aelod staff y byddwch yn delio â nhw fel arfer, neu gallwch ysgrifennu atom. Byddwn yn eu cofnodi ac yn eu defnyddio i wella'r gwasanaeth.

Eich hawl i wneud cwyn am y gwasanaethau cymdeithasol

Mae gennych hawl i wneud cwyn os ydych chi'n teimlo nad ydych chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdanynt wedi cael gwasanaeth da. Gallwch hefyd wneud cwyn os gwrthodwyd gwasanaeth i chi.

Sut ydw i'n gwneud cwyn?

Dechreuwch drwy siarad efo'r aelod staff yr ydych yn delio efo nhw fel arfer, neu gyda'u rheolwr/aig neu'r pennaeth gwasanaeth. Gall y rhan fwyaf o'r cwynion gael eu setlo yn syml fel hyn.

Os nad ydych chi'n fodlon efo'r ateb a gewch, gallwch wneud cwyn swyddogol.

Cysylltwch efo'r Swyddog Cynrychioli a Chwynion yn yr:

Adran Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
Builder Street
Llandudno
LL30 2DA.
Peiriant ateb 24-awr: 01492 574065

Bydd y swyddog cwynion yn edrych i mewn i'ch cwyn ac yn rhoi adroddiad llawn i chi ar bapur. Byddwn yn gwneud y cyfan a allwn i ymateb o fewn 10 diwrnod. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych pryd y gallwch ddisgwyl clywed gennym.

Cyfrinachedd

Rydym yn trin pob darn o wybodaeth bersonol a roddir i unrhyw aelod o staff fel bod yn gyfrinachol. Dim ond os credwn y byddant angen gwybod y byddwn yn rhannu manylion personol efo pobl sy'n gysylltiedig efo'ch gofal a'ch cefnogaeth. Os oes perygl o niwed i chi neu rywun arall, mae adegau pan fo staff yn dweud wrth eu rheolwyr am rywbeth yr ydych wedi ei ddweud wrthynt.

Os hoffech gael mwy o fanylion am yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn,cysylltwch efo:

Uned Plant a Theuluoedd
Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasaol a Gwasanaethau Tai
Anecs y Ganolfan Ddinesig
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AR.
Ffôn: 01492 514871

Gallwch gael y daflen yma ar dâp sain, mewn Braille ac mewn print bras. Os ydych angen un o'r rhain, yna ffoniwch 01492 574065.

Os ydych chi eisiau unrhyw wybodaeth mewn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, fe wnawn ein gorau i geisio cael cyfieithiad i chi.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y daflen yma o:

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai
Builder Street,
Llandudno, LL30 1DA.

Ffôn: 01492 574065

Reference number: SCEtH-CHEtF-L-HELP-04-05(v1) Design by www.blahdblah.com